

# Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru 2017-2020: Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili

## Adroddiad Asesu Blynyddol 2019/20

Paratowyd yr adroddiad hwn yn seiliedig ar wybodaeth a ddarparwyd yn y datganiad blynyddol, yr astudiaethau achos a'r adroddiad naratif a gyflwynwyd gan wasanaeth Caerffili i Is-adran Diwylliant a Chwaraeon Llywodraeth Cymru.

### 1 Crynodeb gweithredol

Bodlonodd Caerffili bob un o'r 12 hawl graidd yn llawn.

O'r 9 dangosydd ansawdd sy'n cynnwys targedau, cyflawnodd Caerffili 7 yn llawn, cyflawnodd 1 yn rhannol, a methodd â chyflawni 1.

Mae Caerffili wedi parhau i gyflawni'n effeithiol yn erbyn y fframwaith safonau yn 2019/20, gydag un targed yn unig heb ei gyflawni. Mae capasiti staff mewn rhai ardaloedd, â 5 man gwasanaeth llyfrgell yng ngofal un aelod o staff, ynghyd â gostyngiad yn y gyllideb adnoddau, wedi cael effaith ar berfformiad y gwasanaeth yn y flwyddyn olaf hon o'r chweched Fframwaith. Cynhaliwyd adolygiad o fenthyciadau cymunedol gan Gaerffili er mwyn cynllunio benthycia yn y dyfodol yn effeithiol sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y llyfrau oedolion a'r llyfrau plant a fenthycwyd. Nododd y gwasanaeth yn Chwefror 2020 hefyd ostyngiad yn y staff. Bydd effaith y gostyngiad hwn mewn lefelau staffio i'w gweld yn y tymor byr. Mae'n anodd rhagweld sut y bydd Caerffili yn parhau i gyflawni ei rwymedigaethau statudol os bydd rhagor o doriadau i'r staff. Mae nifer o adolygiadau cael eu gwneud ar hyn o bryd gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a bydd nifer o newidadau'n cael eu hystyried. Bydd angen cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod llyfrgelloedd Caerffili yn gallu parhau i gynnig y gwasanaethau y mae ar y gymuned leol eu hangen. Mae effaith cyfyngiadau cyllid ar gapasiti a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n rhywbeth y dylai'r awdurdod barhau i'w ystyried yn ofalus. Er gwaetha'r pwysau, efallai y bydd y gwasanaeth am ystyried canolbwyntio ar hyrwyddo adnoddau mewn llyfrgelloedd yng Nghaerffili, yn enwedig mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer plant ac oedolion ifanc. Mae blaengynllunio, a phwyslais cryf ar ddatblygu a hyfforddi staff, wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau'n gadarn, a'i fod wedi perfformio'n dda er gwaethaf nifer o heriau.

- Cynhaliodd Caerffili ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Mai 2019. Gwelwyd cynnydd mewn tri o'r pedwar categori yng nghanlyniadau'r arolwg oedolion o gymharu â'r arolwg blaenorol a gynhaliwyd ym mis Mai 2017.
- Mae gostyngiad yn nifer y benthycwyr gweithredol, ynghyd â gostyngiad mewn benthyciadau llyfrau oedolion a phlant yn cael ei gyferbynnu â chynnydd yn aelodaeth y llyfrgell a chynnydd cryf yn y defnydd o e-adnoddau.
- Mae gostyngiad yn y gyllideb adnoddau, ynghyd â newid i System Rheoli Llyfrgelloedd Cymru Gyfan, wedi golygu bod Caerffili wedi methu â chyflawni'r targed caffaeliadau fesul pen o'r boblogaeth (DA 9) am y tro cyntaf. Er hyn, mae'r gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r targedau ar gyfer darparu deunyddiau Cymraeg, a chyflenwi ceisiadau.
- Mae darpariaeth cyfrifiaduron personol Caerffili yn parhau ymhlith yr uchaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru, ond mae lefelau defnyddio wedi parhau i ostwng wrth

i nifer yr unigolion â'u dyfeisiau eu hunain sy'n defnyddio Wi-Fi mewn llyfrgelloedd gynyddu.

- Nid yw'r targed cyffredinol ar gyfer staff fesul pen o'r boblogaeth yn cael ei gyflawni, ac erbyn hyn mae'n is na'r canolrif. Mae cyfyngiadau cyllidebol wedi effeithio ar berfformiad yma. Mae pwyslais cryf o hyd ar hyfforddiant a datblygiad proffesiynol y staff.
- Llwyddodd Caerffili i ddarparu gwybodaeth lawn am wariant y gwasanaeth yn 2019/20, ac mae'r gyllideb refeniw gyffredinol ymhlith yr uchaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru.

## 2 Perfformiad yn erbyn y safonau

Mae'r fframwaith safonau yn cynnwys hawliau craidd, dangosyddion ansawdd sydd â thargedau, dangosyddion ansawdd sydd â meincnodau a mesurau effaith. Mae Adran 2 yn crynhoi'r cyflawniadau yn erbyn y meysydd hyn. Ceir asesiad naratif o berfformiad yr awdurdod yn Adran 3. Cyfyngwyd ar yr asesiad i ryw raddau gan y ffaith y gofynnwyd i awdurdodau lleol wneud sylw ar unrhyw newidiadau i ddatganiad y flwyddyn flaenorol yn unig, ynghyd â sylwadau ychwanegol ar hawliau craidd a gyflawnwyd yn rhannol/na chawsant eu cyflawni.

### 2.1 Hawliau craidd

Mae Caerffili wedi cyflawni pob un o'r 12 Hawl Graidd yn llawn. Mae Caerffili yn parhau i gefnogi ei aelodau drwy Gynllun Gweithredu Strategol y Gwasanaeth Llyfrgell ar gyfer 2017-20. Mae'r blaenoriaethau'n cynnwys sgiliau staff, datblygu'r ddarpariaeth o ddeunyddiau mewn fformat printiedig a digidol a gwella gofal cwsmeriaid. Mae cynllun newydd yn cael ei ddrafftio ar hyn o bryd ar gyfer cyfnod 2020-22.

### 2.2 Dangosyddion ansawdd sydd â thargedau

Mae 16 o ddangosyddion ansawdd (DA) ac mae gan 10 ohonynt dargedau yn rhan ohonynt. Oherwydd effaith Covid-19, cafodd 3 dangosydd ansawdd eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, sef pump, chwech a phymtheg, ac o'r rhain, roedd rhif chwech yn cynnwys targed. O'r **naw** targed sydd ar ôl ar gyfer 2019-20, mae Caerffili yn cyflawni 7 ohonynt yn llawn, yn cyflawni 1 ohonynt yn rhannol, ac wedi methu â chyflawni 1 ohonynt.

Dangosydd Ansawdd	Cyflawni?	
DA 3 – Cefnogaeth ar gyfer datblygiad unigol		Cyflawni'n llawn
a) Cymorth TGCh	√	
b) Hyfforddiant sgiliau a llythrennedd gwybodaeth	√	
c) Cymorth e-lywodraeth	√	
d) Datblygu darllenwyr	√	
DA 4 (a) Cefnogaeth ar gyfer iechyd a lles		Cyflawni'n llawn
i) Cynllun Presgripsiwn Llyfrau	√	
ii) Cynllun Llyfrau Llesol	√	
iii) Casgliad penodol i iechyd a lles	√	
iv) Gwybodaeth am ymddygiadau a ffyrdd o fyw	√	
v) Arwyddbyst at wasanaethau iechyd a lles	√	
DA 7 Lleoliad mannau gwasanaeth	√	Cyflawni'n llawn
DA 9 – Deunydd darllen cyfoes a phriodol		Heb ei gyflawni
Derbyniadau fesul pen y boblogaeth	X	
<u>neu</u> Wariant ar ddeunyddiau fesul pen	X	
DA 10 – Adnoddau Cymraeg		Cyflawni'n llawn
% y gyllideb deunyddiau wedi'i wario ar y Gymraeg	√	
<u>neu</u> Wariant ar y Gymraeg fesul pen	√	
DA 11 – Mynediad ar-lein:		Cyflawni'n llawn
a) i) Mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd	√	
ii) Darpariaeth Wi-Fi	√	
DA 12 – Cyflenwi ceisiadau		Cyflawni'n llawn
a) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 7 diwrnod	√	
b) % y ceisiadau wedi'u cyflenwi o fewn 15 diwrnod	√	
DA 13 – Lefelau staffio a chymwysterau:		Cyflawni'n rhannol
i) Staff fesul pen y boblogaeth	X	
ii) Staff cymwysedig fesul pen y boblogaeth	X	
iii) Cymwysterau/hyfforddiant pennaeth y gwasanaeth	√	
DA 16 – Oriau agor fesul pen y boblogaeth	√	Cyflawni'n llawn

At ei gilydd, mae Caerffili wedi cynnal ei berfformiad yn nhrydedd flwyddyn y chweched fframwaith. Er bod DA 9 wedi'i gyflawni'n llawn yn 2017/18, ac yn rhannol yn 2018/19, nid yw wedi'i gyflawni yn 2019/20, a hynny'n rhannol oherwydd newidiadau i'r dull o adrodd, toriadau i'r gyllideb ddeunyddiau, a newid i'r system newydd o reoli llyfrgelloedd. Mae'r targed ar gyfer mynediad cyhoeddus i'r Rhynggrwyd yn parhau i gael ei gyflawni'n llawn.

## 2.3 Mesur effaith

Mae'r fframwaith yn cynnwys tri dangosydd sydd wedi'u hanelu at asesu'r effaith y mae defnyddio llyfrgelloedd yn ei chael ar fywydau pobl. Nid yw'r dangosyddion hyn yn cynnwys targedau, a dim ond unwaith dros gyfnod tair blynedd y fframwaith y mae'n ofynnol i awdurdodau gynnal arolygon defnyddwyr ar gyfer DA 1. Er hyn, mae Covid-19 wedi effeithio ar y mesur hwn a chafodd rhai o gynlluniau'r awdurdod i gynnal arolwg yn chwarter cyntaf 2020 eu canslo. Felly, mae'r ffigurau cryno (isaf, canolrif ac uchaf) yn seiliedig ar yr awdurdodau hynny a nododd eu bod wedi cwblhau eu harolwg defnyddwyr yn ystod fframwaith 6. Mae'r drefn yn adlewyrchu nifer yr ymatebwyr, gydag 1 yn nodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf.

Cynhaliodd Caerffili ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Mai 2019, a'r arolwg i blant ym mis Gorffennaf 2018.

Dangosydd perfformiad	Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth				
b) % y plant sy'n meddwl bod y llyfrgell yn eu helpu i ddysgu a chael gwybod pethau:	60%	19/19	60%	90%
e) % yr oedolion sy'n credu bod y llyfrgell wedi gwneud gwahaniaeth i'w bywydau:	41%	19/19	41%	85%

Gofynnir i awdurdodau hefyd gyflwyno hyd at bedair astudiaeth achos yn disgrifio'r effaith y mae'r gwasanaeth llyfrgell wedi'i chael ar unigolyn neu grŵp o unigolion yn ystod y flwyddyn. Darparodd Caerffili bedair astudiaeth achos:

- Cefnogaeth TG Llyfrgell Rhisga – Mae staff y llyfrgell wedi cefnogi aelod o'r llyfrgell wrth iddo chwilio am waith ar ôl cael ei ddiswyddo. Mae allgáu digidol yn parhau'n uchel ym mwrdeistref Caerffili, ac mae'r cyfrifiaduron a'r cyfleusterau argraffu yn y llyfrgell wedi galluogi'r unigolyn dan sylw i chwilio am swyddi â chymorth staff y llyfrgell. Cafodd hyn effaith hynod o gadarnhaol ar iechyd meddwl a llesiant defnyddiwr y llyfrgell.
- Iechyd a llesiant – Gofal Dementia – Rôl y llyfrgell yn cefnogi pobl sydd â dementia yng Nghaerffili. Un o'r prosiectau sy'n cael ei weithredu ym mhob un o'r deunaw llyfrgell yw *Bagiau Atgofion*. Mae'r bagiau'n cael eu benthyca i ofalwyr neu gwsmeriaid sy'n byw â dementia. Mae'r cynllun hwn yn galluogi trigolion ac aelodau i elwa o effeithiau cadarnhaol hel atgofion. Mae'r gwasanaeth hwn yn helpu i gysylltu aelodau o'r teulu ac yn cynnig cefnogaeth i ofalwyr yr unigolion hynny sy'n byw â dementia.
- Darpariaeth Gymraeg – Ar hyn o bryd mae'r gwasanaeth yn cefnogi dau Grŵp Darllen Cymraeg a gynhelir yn Llyfrgell Caerffili a Chlwb Sgrabl Cymraeg a gynhelir yn Llyfrgell Rhisga. Mae'r llyfrgelloedd yn darparu amgylchedd dysgu diogel i alluogi'r aelodau hynny sy'n dysgu Cymraeg i ddatblygu eu sgiliau iaith. Nodwyd hefyd bod yr adnoddau printiedig a digidol Cymraeg yn y llyfrgelloedd yn helpu i wella hyder dysgwyr.
- Llyfrgell y Coed-duon – dylanwad cadarnhaol jig-sos mewn llyfrgell – Mae prawf bod gwneud jig-sos o fudd i iechyd meddwl pobl, a'u bod hefyd yn fuddiol iawn o safbwynt cymdeithasol. Mae'r clwb hwn wedi dod â gwahanol rannau o'r gymuned at ei gilydd, ac mae wedi helpu i fynd i'r afael ag unigrwydd ac ynysigrwydd ymhlith yr aelodau.

Mae'r rhai sy'n cymryd rhan wedi gwella eu sgiliau cymdeithasol, eu sgiliau cyfathrebu a'u sgiliau datrys problemau.

## **2.4 Dangosyddion perfformiad a meincnodau ansawdd**

Er bod cyfyngiadau Covid-19 yn parhau i achosi her i bob gwasanaeth llyfrgell yng Nghymru, mae gwytnwch staff, eu proffesiynoldeb a'u gofal dros y gymuned y maent yn ei gwasanaethu wedi bod yn eithriadol. Er bod gwasanaethau digidol wedi cynyddu, gwyddom o dystiolaeth a ddarparwyd fod cwsmeriaid yn colli eu gwasanaethau llyfrgell. Maent yn colli'r staff, pori drwy'r silffoedd, y ddarpariaeth TG, y mannau cymunedol a'r grwpiau, fel y grwpiau gwau a chlonc. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y llyfrgell fel lle i fynd iddo, ac effaith rhyngweithio â staff llyfrgell ar lesiant y cwsmeriaid.

Nid oes gan y dangosyddion sy'n weddill dargedau, ond maent yn galluogi gwasanaethau i fonitro a meincnodi eu perfformiad dros gyfnod, gan gymharu ag awdurdodau eraill. Mae'r tabl canlynol yn crynhoi sefyllfa Caerffili ar gyfer 2019/20. Nodir safle allan o 22, gydag 1 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr uchaf a 22 yn dynodi'r awdurdod â'r sgôr isaf, oni nodir yn wahanol. Nid oedd data perthnasol ar gael i rai awdurdodau, fel y gwelir yn y dangosyddion lle y darparodd llai na 22 o awdurdodau ddata. Nodwyd ffigurau o ail flwyddyn y chweched fframwaith neu o arolygon blaenorol perthnasol hefyd er mwyn gallu cymharu. Caiff dangosyddion 'fesul pen' o'r boblogaeth eu cyfrifo fesul 1,000 o'r boblogaeth oni nodir yn wahanol.

Dangosydd perfformiad		Safle	Isaf	Canolrif	Uchaf	2017/18
DA 1 – Gwneud gwahaniaeth						[Fframwaith 6]
a) % yr oedolion sy'n credu bod defnyddio'r llyfrgell wedi'u helpu i ddatblygu sgiliau newydd	25%	18/18	25%	75%	94%	24%
c) iechyd a lles	38%	19/19	38%	699%	96%	33%
d) lle diogel a chroesawgar	99%	=2/19	90%	96%	100%	99%
DA 2 – Bodlonrwydd cwsmeriaid						[Fframwaith 6]
a) dewis 'da iawn' neu 'da' o lyfrau	94%	5/18	78%	91%	99%	94%
b) gofal cwsmeriaid 'da iawn' neu 'da'	99%	=3/18	88%	97%	100%	99%
c) cyfleusterau TG 'da iawn' neu 'da'	91%	=5/17	65%	85%	99%	92%
d) 'da iawn' neu 'da' yn gyffredinol;	98%	=5/18	85%	96%	100%	99%
e) sgôr allan o ddeg gan ddefnyddwyr 16 oed ac iau	9.4	=3/19	8.0	9.2	9.5	9.4
DA 8 – Defnyddio'r llyfrgell <sup>1</sup>						
a) ymweliadau fesul pen y boblogaeth	3,596	14/22	2429	3987	6874	3606
b) rhith-ymweliadau fesul pen	434	17/22	239	909	2131	509
c) benthycwyr gweithredol fesul pen	205	3/22	78	145	244	209
DA 10 – Benthyciadau Cymraeg fesul pen <sup>2</sup>	493	16/22	311	680	1468	685
DA 11 – Mynediad ar-lein						
b) cyfrifiaduron fesul 10,000	14	1/22	4	9	14	14
c) % yr amser sydd ar gael i'w defnyddio gan y cyhoedd	17%	20/22	14%	30%	64%	18%
DA 14 – Gwariant gweithredol						
a) cyfanswm gwariant fesul pen	£17,965	3/22	£7,260	£12,448	£23,333	£17.369
b) % ar staff	49%	=20/22	48%	61%	76%	49%
% ar adnoddau gwybodaeth	8%	20/22	5%	13%	22%	11%
% ar offer ac adeiladau	28%	1/22	0%	8%	21%	25%
% ar gostau gweithredol eraill	16%	=11/22	1%	18%	35%	15%
c) gwariant cyfalaf fesul pen	£0	=22/22	£0	£1,567	£13,027	£0
DA 16 – Oriau agor <sup>3</sup>						
(iii) a) % oriau cau manau gwasanaeth sefydlog heb gynllunio gwneud hynny	0.00%	=1/22	0.00%	0.23%	3.96%	0.00%
b) % arosfannau'r llyfrgell deithiol / danfon i'r cartref a fethwyd	0.00%	=1/22	0.00%	1.07%	5.41%	0.00%

<sup>1</sup> rhoddir seren wrth ymyl ffigurau ar gyfer gwasanaethau sydd wedi'u cyd-leoli; mae perfformiad y gwasanaethau hyn yn debygol o adlewyrchu'r ffaith bod mwy o bobl yn ymweld â nhw, ac felly ni ellir eu cymharu'n uniongyrchol â darpariaeth llyfrgell ar wahân; <sup>2</sup> fesul 1,000 y boblogaeth breswyl sy'n siarad Cymraeg; <sup>3</sup> Mae'r safleoedd yma wedi'u troi i'r gwrthwyneb, felly 1 yw'r awdurdod â'r sgôr isaf (yr awdurdod sy'n perfformio orau).

### 3 Dadansoddi perfformiad

Gellir rhannu'r hawliau craidd a'r dangosyddion ansawdd yn bedwar maes allweddol. Mae'r adran hon o'r adroddiad yn amlinellu perfformiad o dan y meysydd hyn, ac yn cymharu'r perfformiad hwn â blwyddyn gyntaf ac ail flwyddyn y chweched fframwaith (2017/18 a 2018/19).

#### 3.1 Diwallu anghenion cwsmeriaid (DA 1-5)<sup>i</sup>

Cynhaliodd Caerffili ei arolwg o ddefnyddwyr sy'n oedolion ym mis Mai 2019. Gwelwyd cynnydd mewn tri o'r pedwar categori yng nghanlyniadau'r arolwg oedolion, o'i gymharu â'r arolwg blaenorol a gynhaliwyd ym mis Mai 2017. Mae canran yr oedolion sy'n ystyried



y llyfrgell yn lle diogel a chynhwysol yn parhau'n uwch na'r canolrif yng Nghymru. Er hyn, mae'r dangosyddion effaith (datblygu sgiliau / iechyd a llesiant) yn parhau'n is na'r canolrif yng Nghymru. Gwelwyd gostyngiad bach iawn hefyd yng nghanran yr oedolion sy'n meddwl bod y cyfleusterau TG yn dda iawn neu'n dda. Mae'r gwasanaeth yn nodi nad yw bob amser yn gallu bodloni disgwyliadau ar-lein a thechnolegol ei gwsmeriaid. Mae arolwg plant, a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2018, yn dangos cynnydd yn y sgôr gyfartalog o ddeg a roddwyd gan ddefnyddwyr 7-16 oed, o 9.3 yn 2016/17 i 9.4 yn 2019/20. Nodir bod ystod ardderchog o adnoddau i blant a phobl ifanc yng Nghaerffili. Er hyn, mae'r gostyngiad mawr mewn benthyciadau plant, a nodir isod, yn awgrymu nad yw'r adnoddau hyn yn cael eu defnyddio'n llawn.

### **3.2 Mynediad a defnydd (DA 6-8)<sup>ii</sup>**

Mae cau pob llyfrgell ar 20 Mawrth 2020 oherwydd Covid-19 hefyd wedi effeithio ar y defnydd o lyfrgelloedd. Mae Caerffili yn parhau i gyrraedd y targed ar gyfer mynediad hawdd at fannau gwasanaeth, â 18 cangen yn gwasanaethu ei gymunedau lleol. Mae cyfanswm yr ymweliadau â safleoedd llyfrgell wedi gostwng 0.3% er 2018/19, ond 16% ar draws y fframwaith. Mae'n debyg y byddai'r ffigur hwn wedi bod yn fwy na'r ffigur o 2018/19 pe na bai'r llyfrgelloedd wedi cau ar 20 Mawrth. Mae dangosyddion defnydd eraill yn dangos darlun cymysg, â gostyngiad o 6% yn nifer y benthycwyr gweithredol er 2017/18, ynghyd â gostyngiad o 12% mewn benthyciadau llyfrau oedolion a gostyngiad o 51% mewn benthyciadau llyfrau plant. Mae hyn er gwaethaf cynnydd o 7% mewn aelodau llyfrgell. Nodir nad oes unrhyw drafodion stoc plant nac oedolion wedi'u cynnwys o 16 Mawrth ymlaen oherwydd y newid i system rheoli llyfrgelloedd Cymru gyfan. Ymhlith y ffactorau eraill sydd wedi effeithio ar fenthyciadau mae ad-drefnu staff, sydd wedi arwain at ddileu dwy swydd llyfrgellydd cymunedol amser llawn. Mae rhaglen golygu stoc wedi'i chynnal, ond disgwyliad i hyn gael effaith gadarnhaol ar fenthycyca. Elfen bwysig o'r gwaith a oedd yn cael ei wneud gan y swyddi llyfrgell proffesiynol hyn oedd gwaith gyda phlant a phobl ifanc, ac mae hyn yn sicr wedi cael effaith negyddol yn y maes hwn, ac yn dangos pwysigrwydd staff llyfrgell proffesiynol. Yn nwy flynedd gyntaf y chweched fframwaith roedd perfformiadau ymhlith yr uchaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Erbyn heddiw mae benthyciadau plant ychydig yn uwch na'r canolrif ar gyfer Cymru. Gwelwyd cynnydd cryf o hyd yn y defnydd o e-adnoddau.

### **3.3 Cyfleusterau a gwasanaethau (DA 9-12)<sup>iii</sup>**

O ganlyniad i ostyngiad yn y gyllideb adnoddau, yn ogystal â newid i system rheoli llyfrgelloedd Cymru gyfan, mae Caerffili wedi methu â chyflawni'r targed caffaeliadau fesul pen o'r boblogaeth (DA 9) am y tro cyntaf. Mae Caerffili yn un o ddau ar bymtheg o awdurdodau nad ydynt wedi cyflawni'r targed caffael (DA 9) yn 2019/20. Mae'r gyllideb ddeunyddiau wedi gostwng ychydig dros 31% er 2017/18, ac mae'r ffigur ar gyfer cyfanswm y caffaeliadau wedi gostwng 43%. Er hyn, mae'r gwasanaeth yn nodi bod ffigur y llynedd yn cynnwys eitemau tanysgrifio wedi'u prynu'n ganolog, ac o ganlyniad ni ellir cymharu'r ffigurau.

Mae canran y gwariant ar ddeunyddiau i blant wedi gostwng 2% i 24% o ganlyniad i'r gostyngiad yn y gyllideb adnoddau. Mae'r gwariant ar ddeunyddiau Cymraeg yr un fath, ac mae'n parhau ymhlith yr uchaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Er gwaetha'r gwariant hwn, mae benthyciadau Cymraeg yn llawer is na'r canolrif yng Nghymru. Mae'r

gwasanaeth yn parhau i gyflawni'r gofynion ar gyfer cyflenwi ceisiadau, er gwaethaf gostyngiad bach yn y ceisiadau a oedd ar gael cyn pen 7/15 diwrnod calendr. Mae darpariaeth cyfrifiaduron personol Caerffili yn parhau ymhlith yr uchaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru, ond mae'r defnydd wedi gostwng yn 2019/20. Mae hwn yn batrwm sydd i'w weld ledled Cymru wrth i fwy o ddefnyddwyr ddefnyddio Wi-Fi o'u dyfeisiau eu hunain. O ganlyniad, mae'r gwasanaeth wedi gosod cyfleusterau argraffu Wi-Fi yn ei ganolfannau llyfrgell.

### **3.4 Arbenigedd a chapasiti (DA 13-16)<sup>iv</sup>**

Yn ystod 2019/2020, o ganlyniad i gwtogiadau cyllidebol, aeth y gwasanaeth llyfrgell drwy ail broses ad-drefnu staff. Erbyn hyn mae 5 man gwasanaeth llyfrgell arall yng ngofal un aelod o staff, sy'n gwneud cyfanswm o 11 allan o 18 llyfrgell sy'n fan gwasanaeth ag un aelod o staff erbyn hyn. O ganlyniad, mae nifer y staff wedi gostwng 17% er 2017/18, a nodir bod y gwasanaeth hefyd wedi colli dwy swydd llyfrgellydd cymunedol proffesiynol, ynghyd â swydd uwch reolwr llyfrgell.

Nid yw'r targed cyffredinol ar gyfer staff fesul pen o'r boblogaeth yn cael ei gyflawni, ac erbyn hyn mae'n is na'r canolrif. Mae cyfanswm y staff y nodwyd bod ganddynt gymwysterau cydnabyddedig wedi gostwng 30%, ac erbyn hyn mae ar y lefel ganolrifol ar gyfer Cymru. Nodwyd bod tair swydd wag yn y strwythur staffio ar yr adeg y cyflwynwyd y datganiad. Mae pwyslais cryf ar hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff o hyd.

Mae'r gyllideb refeniw gyffredinol yn parhau ymhlith yr uchaf fesul pen o'r boblogaeth yng Nghymru. Er y gostyngiad yn y lefelau staffio, mae'r oriau agor yr un fath ac maent yn parhau i gyflawni'r targed a osodwyd. Yn ystod 2019/2020, mae'r gwasanaeth danfon i bobl sy'n gaeth i'w tai, LibraryLink, wedi cofrestru mwy o gwsmeriaid i'r gwasanaeth.

## **4 Cyd-destun strategol**

Fel rhan o'r datganiad gofynnwyd i awdurdodau ddweud sut y mae'r gwasanaeth llyfrgell yn cyfrannu at flaenoriaethau ehangach Llywodraeth Cymru a'i nodau strategol. Mae Caerffili wedi darparu trosolwg cynhwysfawr o'r cyswllt rhwng gweithgareddau llyfrgell a strategaethau Cyngor Caerffili a Llywodraeth Cymru. Nodir effaith eang ar amrywiaeth o ganlyniadau llesiant, megis tlodi, ynysigrwydd cymdeithasol ac iechyd a llesiant. Rhoddir enghreifftiau penodol i ddangos sut y mae blaenoriaethau'r gwasanaeth yn gydnaws â pholisiau strategol ehangach, yn enwedig yng nghyswllt cefnogi dysgu, cynhwysiant cymdeithasol ac iechyd a llesiant.

## **5 Cyfeiriad i'r dyfodol**

Wrth adrodd ar gyfeiriad yr awdurdod ar gyfer y dyfodol a chynlluniau ar gyfer y gwasanaeth llyfrgell yn ystod y flwyddyn ddilynol, nodir bod Caerffili yn gweithio tuag at gyhoeddi cynllun strategol newydd ar gyfer y gwasanaeth o 2020 ymlaen. Mae'r gwasanaeth yn bwriadu adeiladu ar ei lwyddiant fel 'angor cymunedol' i drigolion Caerffili drwy sicrhau bod ei wasanaethau'n parhau'n gyfredol ac yn berthnasol i gymunedau. Nodir bod rhaglen newydd sy'n ymgysylltu ag ysgolion wedi'i datblygu, ac mae'r dyheadau'n cynnwys cefnogi ysgolion i rymuso a gwella perfformiad disgyblion. Nodir hefyd bod llyfrgelloedd Caerffili yn gwbl ymroddedig i wella iechyd a llesiant yng Nghaerffili drwy bartneriaethau amrywiol.



## 6 Casgliad

Mae Caerffili wedi parhau i gyflawni'n effeithiol yn erbyn y fframwaith safonau yn 2019/20, gydag un targed yn unig heb ei gyflawni. Mae capasiti staff mewn rhai ardaloedd, â 5 man gwasanaeth llyfrgell yng ngofal un aelod o staff, ynghyd â gostyngiad yn y gyllideb adnoddau, wedi cael effaith ar berfformiad y gwasanaeth yn y flwyddyn olaf hon o'r chweched Fframwaith. Cynhaliwyd adolygiad o fenthyciadau cymunedol gan Gaerffili er mwyn cynllunio benthycia yn y dyfodol yn effeithiol sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer y llyfrau oedolion a'r llyfrau plant a fenthycwyd. Nododd y gwasanaeth yn Chwefror 2020 hefyd ostyngiad yn y staff. Bydd effaith y gostyngiad hwn mewn lefelau staffio i'w gweld yn y tymor byr. Mae'n anodd rhagweld sut y bydd Caerffili yn parhau i gyflawni ei rwymedigaethau statudol os bydd rhagor o doriadau i'r staff. Mae nifer o adolygiadau cael eu gwneud ar hyn o bryd gan Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a bydd nifer o newidadau'n cael eu hystyried. Bydd angen cynllunio'n ofalus er mwyn sicrhau bod llyfrgelloedd Caerffili yn gallu parhau i gynnig y gwasanaethau y mae ar y gymuned leol eu hangen. Mae effaith cyfyngiadau cyllid ar gapasiti a'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n rhywbeth y dylai'r awdurdod barhau i'w ystyried yn ofalus. Er gwaetha'r pwysau, efallai y bydd y gwasanaeth am ystyried canolbwyntio ar hyrwyddo adnoddau mewn llyfrgelloedd yng Nghaerffili, yn enwedig mewn perthynas ag adnoddau ar gyfer plant ac oedolion ifanc. Mae blaengynllunio, a phwyslais cryf ar ddatblygu a hyfforddi staff, wedi sicrhau bod y gwasanaeth yn parhau'n gadarn, a'i fod wedi perfformio'n dda er gwaethaf nifer o heriau

---

<sup>i</sup> Oherwydd Covid-19, dim ond nodi unrhyw newid yn eu darpariaeth ers y flwyddyn adrodd ddiwethaf y gofynnwyd i awdurdodau lleol ei wneud ar gyfer DA 3 a 4.

<sup>ii</sup> Oherwydd Covid-19, cafodd DA 5 a 6 eu dileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20.

<sup>iii</sup> Cafodd e-adnoddau a brynwyd drwy danysgrifiadau a ariennir yn ganolog eu cynnwys yn y ffigurau caffaeliadau ar gyfer DA 9 yn 2019/20. Mae pob awdurdod wedi ychwanegu 201 at gyfanswm ei gaffaeliadau o danysgrifiadau a ariennir yn ganolog. Mae Datganiadau Ystadegau CIPFA yn parhau i gynnwys ffigurau ar gyfer adnoddau a gaffaelir yn ganolog.

<sup>iv</sup> Oherwydd Covid-19, cafodd DA 15 ei ddileu ar gyfer blwyddyn adrodd 2019/20, ynghyd â hyfforddiant ac oriau gwirfoddoli.